



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Parchu eraill: Trosolwg gwrth-fwlio



## Canllawiau

Dogfen ganllawiau Rhif: 050/2011  
Dyddiad cyhoeddi: Medi 2011

## Parchu eraill: Trosolwg gwrth-fwlio

- Cynulleidfa** Ysgolion, awdurdodau lleol, rhieni/gofalwyr, teuluoedd, dysgwyr a llywodraethwyr ysgol; gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr proffesiynol iechyd a mudiadau gwirfoddol sy'n gweithio gyda phlant ysgol.
- Trosolwg** Mae'r canllaw hwn yn darparu gwybodaeth i bawb sy'n ymwneud â mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion. Dylai fod yn ddefnyddiol i awdurdodau lleol ac ysgolion wrth iddyn nhw ddatblygu polisiau a strategaethau gwrth-fwlio, ac ymateb i achosion o fwlio. Mae'r ddogfen hon yn ffurfio rhan o gyfres o ganllawiau ar fwlio ar sail hil, crefydd a diwylliant; bwlio sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau; bwlio homoffobig; bwlio rhywiaethol, rhywiol a thrawsffobig; a seiberfwlio.
- Camau i'w cymryd** I'w ddefnyddio wrth ddatblygu polisiau a strategaethau gwrth-fwlio.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y canllaw hwn at:  
Tîm Ennyn Diddordeb Disgyblion  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
Ffôn: 029 2080 1445  
Ffacs: 029 2080 1051  
e-bost: PETshare@cymru.gsi.gov.uk
- Copiau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn unig yn [www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau](http://www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau)
- Dogfennau cysylltiedig** *Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio* Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cylchlythyr 23/2003 (2003)  
*Adroddiad Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb* (2008)  
*Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cylchlythyr 47/2006 (2006)  
*Gwasanaethau Cwnsela mewn Ysgolion yng Nghymru* (2008)  
*Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion* (2008)

## Cynnwys

<b>Cyflwyniad a chyd-destun</b>	<b>2</b>
Natur bwlio	2
Canllawiau craidd gwrth-fwlio	2
Cyd-destun Cymru	4
Pwysigrwydd cael agwedd ysgol gyfan at wrth-fwlio	6
Gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion	6
Addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) ac agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu (ACEDd)	7
<b>Mathau penodol o fwlio</b>	<b>9</b>
Bwlio ar sail hil, crefydd a diwylliant	10
Bwlio sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau	10
Bwlio homoffobig	10
Bwlio rhywiaethol, rhywiol a thrawsffobig	10
Seiberfwlio	11
<b>Cydnabyddiaethau</b>	<b>12</b>

## Cyflwyniad a chyd-destun

Mae gan bob dysgwr ym mhob ysgol yr hawl i ddysgu heb ofn cael eu bwlio, beth bynnag yw'r math hwinnw o fwlio. Mae'n rhaid i bawb sy'n ymwneud ag addysg dysgwr gydweithio i sicrhau mai dyna beth sy'n digwydd. Mae'n rhaid i ysgolion fynd ati'n weithredol i ymdrin â phob math o fwlio, a dylen nhw gymryd camau i atal ymddygiad bwliadd yn ogystal ag ymateb i ddigwyddiadau pan fyddan nhw'n codi.

### Natur bwlio

Defnyddir sawl diffiniad o fwlio, ond mae'r mwyafrif yn ei ystyried yn weithred sy'n:

- fwriadol niweidiol (gan gynnwys ymddygiad ymosodol)
- digwydd yn aml dros gyfnod o amser, gan gydnabod gall un digwyddiad yn unig achosi trawma i'r dysgwr a'i adael yn poeni y bydd yn digwydd eto
- anodd i ddioddefwyr amddiffyn eu hunain yn ei erbyn.

Mae barn dysgwyr unigol am yr hyn a olygir wrth fwlio hefyd yn elfen allweddol i'w hystyried.

Mae sawl gwahanol fathau o fwlio, ond y tri phrif fath o fwlio yw:

- corfforol – bwrw, cicio, cymryd eiddo, aflonyddu rhywiol neu ymosodiad
- llafar – galw enwau, sarhau, gwneud sylwadau tramgwyddus
- anuniongyrchol – lledu storiâu cas am rywun, eithrio o grwpiau cymdeithasol, bod yn destun sion maleisus, anfon negeseuon e-bost neu negeseuon testun maleisus ar ffonau symudol.

### Canllawiau craidd gwrth-fwlio

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion, ond mae llawer o'r cyngor arfer da yn berthnasol i bob math o ysgolion. Mae'n rhoi gwybodaeth i lywodraethwyr ysgol, penaethiaid, athrawon a staff eraill ar sut i atal ac ymateb i fwlio.

Mae'r canllawiau'n dilyn ymlaen o'r canllawiau gwrth-fwlio craidd *Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio* (Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif: 23/2003).

Mae *Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio* yn rhoi gwybodaeth ar sut i fynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion a'r camau dylai ysgolion eu cymryd i gynorthwyo dysgwyr sydd wedi cael eu bwlio tu allan i'r ysgol. Mae'n cynnig atebion ymarferol uniongyrchol i atal a delio ag achosion o fwlio, ac mae'n rhoi'r cefndir cyfreithiol ac esboniad o rôl pawb sy'n ymwneud ag atal a delio â bwlio.

Y prif feysydd sy'n cael sylw yn *Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio* yw:

- yr angen i gael polisïau mewn ysgolion a dulliau ar gyfer datblygu rhain
- cyfrifoldebau cyfreithiol ysgolion
- mathau o fwlio, pam ei fod yn digwydd, y risgiau i ddysgwyr ac agweddau dysgwyr
- casglu a defnyddio gwybodaeth ar nifer yr achosion o fwlio
- strategaethau ar gyfer gwrthsefyll bwlio, a all gynnwys defnyddio'r cwricwlwm, datblygu strategaethau penodol, gweithio gyda dioddefwyr a phenderfynu pryd mae'n briodol i gymryd mesurau llymach
- sut i gydweithio â rhieni/gofalwyr a'u cael nhw i gefnogi agwedd ysgol gyfan ac ymdrin ag achosion o fwlio mewn ffordd briodol, p'un ai ydyn nhw'n rhieni/gofalwyr y bwli neu'n rhieni/gofalwyr y dioddefwr
- delio â bwlio a'i atal tu allan i'r ystafell ddosbarth sy'n golygu ystyried y broses o oruchwylio'r iard chwarae a thir yr ysgol a'r amgylchedd hwnnw
- ymdrin â'r anawsterau a wynebwr gan blant yn ystod eu prif gyfnodau o newid
- astudiaethau achos fel enghreifftiau o'r cynnydd a wnaed wrth ymdrin â phroblemau bwlio anodd
- rhestr o ffynonellau defnyddiol posibl a fydd yn helpu i lywio strategaethau gwrth-fwlio
- cyngor i ddysgwyr, rhieni/gofalwyr a theuluoedd ar sut i ddelio ag achosion o fwlio ynghyd â gwybodaeth a manylion cyswllt.

Mae *Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio* i'w weld yn [www.cymru.gov.uk/parchueraill](http://www.cymru.gov.uk/parchueraill)

## Cyd-destun Cymru

Mae dogfennau Llywodraeth Cynulliad Cymru *Y Wlad sy'n Dysgu* (2001) ac *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith* (2006) yn gosod y cyd-destun ar gyfer datblygiadau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith* yn cynnwys adran benodol ar ysgolion a dysgu, a'r weledigaeth ynddi yw 'sicrhau bod pawb yn mwynhau manteision y gwelliannau, mewn system ddysgu hollol gynhwysfawr sy'n gwasanaethu pob un o'n cymunedau lleol yn dda'.

Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru, fel y'i mynegwyd yn *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau* (2005), yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae saith amcan craidd ynddo sy'n ceisio sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc:

- yn cael dechrau teg mewn bywyd (Erthyglau 3, 29 a 36)
- yn cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu (Erthyglau 23, 28, 29 a 32)
- yn mwynhau'r iechyd gorau posibl, ac nad ydynt yn cael eu cam-drin, eu fictimeiddio na'u hecsbloetio (Erthyglau 6, 18–20, 24, 26–29, 32–35, 37 a 40)
- yn cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol (Erthyglau 15, 20, 29 a 31)
- yn cael eu clywed, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod (Erthyglau 2, 7, 8, 12–17 ac 20)
- yn cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol (Erthyglau 19, 20, 25, 27, 32–35)
- yn osgoi cael eu rhoi dan anfantais oherwydd tlodi (Erthyglau 6, 26, 27 a 28).

Gallech weld y 54 erthygl sy'n cwmpasu'r Gonfensiwn yn [www.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/uncrcarticles/?skip=1&lang=cy](http://www.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/uncrcarticles/?skip=1&lang=cy)

Mae plant sy'n cael eu bwlio yn llai tebygol o gyflawni'r saith amcan craidd hyn. Felly, er mwyn gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid cynorthwyo ysgolion i ddeall, atal ac ymateb yn effeithiol i bob math o fwlio.

Mae Cynllun Gweithredu CCUHP *Gwneud Pethau'n Iawn 2009* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009) yn amlinellu'r blaenoriaethau a'r camau allweddol bydd Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â

nhw mewn ymateb i *Sylwadau Clo ar gyfer y DU gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 2008*.

Mae'r dogfennau hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn [www.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/rights/uncrc/reporting/20072010/actionplan/?skip=1&lang=cy](http://www.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/rights/uncrc/reporting/20072010/actionplan/?skip=1&lang=cy)  
[www.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/uncrcconcludingobservations2008/?skip=1&lang=cy](http://www.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/uncrcconcludingobservations2008/?skip=1&lang=cy)

Bydd rhaid rhoi gwaith ar atal ac ymateb i fwlio yng nghyd-destun ehangach y gwaith ar ymddygiad a phresenoldeb mewn ysgolion. Ym Mawrth 2006, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y byddai'n cynnal Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb a chafodd adroddiad ei gyhoeddi yn 2008. Dilynwyd hyn gan *Ymddygiad a Phresenoldeb: Cynllun Gweithredu yn Ymateb i'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb (2009)* sy'n amlinellu'r ymateb i'r argymhellion yn adroddiad Adolygiad Cenedlaethol Ymddygiad a Phresenoldeb. Mae'r cynllun gweithredu yn bwriadu cryfhau gwaith parhaus Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion o ran gwella a hyrwyddo ymddygiad a phresenoldeb cadarnhaol. Yn ei dro, mae'r gwaith hwn yn bwriadu cynnig dulliau gwell o feithrin a chefnogi plant a phobl ifanc a chynnig arweiniad iddyn nhw yn ystod eu haddysg, a'u helpu i gyrraedd eu potensial.

Gellir gweld adroddiad llawn Adolygiad Cenedlaethol Ymddygiad a Phresenoldeb yn [www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/reports/nbarreview/?skip=1&lang=cy](http://www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/reports/nbarreview/?skip=1&lang=cy)

Gellir gweld y Cynllun Gweithredu yn [www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/nbarsummaryactionplan/?skip=1&lang=cy](http://www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/nbarsummaryactionplan/?skip=1&lang=cy)

Mae'r *Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion: Creu cymunedau dysgu effeithiol gyda'n gilydd*, a gyhoeddwyd yn 2008, yn ceisio gwella dysgu a lles plant a phobl ifanc drwy ddiwygio ar dair lefel – hynny yw, y llywodraeth, awdurdodau lleol ac ysgolion yn cydweithio i ysgogi newid. Y nod yw sicrhau bod pob gweithgaredd a rhaglen yn cyfateb â'i gilydd ac yn gydlynol, gyda'r nod canolog o wella dysgu a lles i blant a phobl ifanc.

Gellir gweld y ddogfen lawn yn [www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/schooleffectivenessframework/?skip=1&lang=cy](http://www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/schooleffectivenessframework/?skip=1&lang=cy)

## **Pwysigrwydd cael agwedd ysgol gyfan at wrth-fwlio**

Mae'n hanfodol i ddatblygu ethos cynhwysol cryf lle nad yw bwlio a rhagfarn yn cael eu goddef. Mae hawliau dynol yn warantau sy'n diogelu unigolion a grwpiau rhag gweithredoedd sy'n effeithio ar eu rhyddid a'u hurddas dynol. Yr ethos cynhwysol hwn seiliedig ar hawliau yw'r sail ar gyfer ymdrin yn effeithiol â phob math o fwlio.

Hefyd, mae'n rhaid i benaethiaid osod mesurau ar gyfer ymddygiad a disgyblaeth sy'n ffurfio polisi ymddygiad yr ysgol, gan weithredu yn unol â datganiad o egwyddorion y corff llywodraethu. Dylai polisiau gwrth-fwlio gael eu datblygu fel rhan o bolisi ymddygiad ehangach yr ysgol a dylai gynnwys cyfeiriadau penodol at bob math o fwlio.

Mae atal ac ymateb yn mynd law yn llaw. Mewn ysgolion effeithiol mae'r dulliau hyn yn gyd-ddibynnol mewn gwirionedd. Mae hyn yn elfen arbennig o bwysig wrth ystyried bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn. Pan all ymddygiad bwliaidd fod yn seiliedig ar werthoedd neu gredoau mae angen eu herio, mae'n hollbwysig bod yr ysgol yn cymryd camau i ddelio â'r ymddygiad ei hun a hefyd yr agweddau sy'n ysgogi'r ymddygiad hwnnw.

Yn anad dim, yr her i bob ysgol yw creu amgylchedd dysgu diogel sy'n diogelu dysgwyr rhag niwed ac sy'n atal ymddygiad bwliaidd. Mae ymateb yn brydlon ac yn effeithiol i ddigwyddiadau pan fyddan nhw'n codi yn rhoi hyder a sicrwydd i holl aelodau'r gymuned ysgol.

Mae *Parchu eraill* yn rhoi cyngor cyffredinol ar ddatblygu polisi bwlio ysgol gyfan.

## **Gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion**

Mae cwnsela effeithiol yn rhan allweddol o agweddau ysgol gyfan at atal ac ymateb i fwlio. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar strategaeth genedlaethol ar gyfer cwnsela mewn ysgolion, a nod y strategaeth yw datblygu gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion sy'n annibynnol, yn ddiogel, yn hygyrch ac o safon uchel. Gall pob ysgol uwchradd ddefnyddio gwasanaeth cwnselwr cymwys, hyfforddedig.

Gellir gweld y ddogfen strategaeth genedlaethol lawn yn [www.wales.gov.uk/dcells/publications/publications/guidanceandinformation/counsellingstrategy/counsellingstrategy-w.pdf?lang=cy](http://www.wales.gov.uk/dcells/publications/publications/guidanceandinformation/counsellingstrategy/counsellingstrategy-w.pdf?lang=cy)



Mae Pecyn Cymorth Gweithredu Cwnsela Mewn Ysgolion yn gyhoeddiad ar y cyd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a British Association for Counselling and Psychotherapy. Ei brif bwrpas yw darparu adnodd i adeiladu ar y strategaeth genedlaethol ac mae'n cynnwys safonau, canllawiau a deunyddiau enghreifftiol i gwmselwyr a'r gwasanaethau cwnsela yng Nghymru er mwyn i ddarparwyr cwnsela ac ysgolion allu darparu gwasanaethau sy'n ddiogel, yn hygyrch ac o safon uchel.

Gellir gweld y pecyn cymorth yn

[www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/wellbeing/schoolcounselling/counsellingtoolkit/?skip=1&lang=cy](http://www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/wellbeing/schoolcounselling/counsellingtoolkit/?skip=1&lang=cy)

## **Addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) ac agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu (ACEDd)**

Mae ABCh yn cynnig amryw o gyfleoedd i archwilio pynciau sy'n gysylltiedig â phob math o fwlio.

- Elfennau craidd y *Fframwaith Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008) yw datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Mae plant yn cael cyfle i ddysgu amdanyn nhw eu hunain a'u perthynas â phlant eraill ac oedolion o fewn a'r tu allan i'w teulu nhw.
- Mae'r *Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008) diwygiedig yn ceisio galluogi plant a phobl ifanc i fod yn fwy gwybodus a hyderus er mwyn rhyngweithio'n effeithiol ag eraill, ac i ddatblygu'r sgiliau rhyngbersonol sydd eu hangen i fynegi eu teimladau'n effeithiol a gallu deall teimladau pobl eraill.

I gael rhagor o wybodaeth am ABCh ewch i

[www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/pseseal/?skip=1&lang=cy](http://www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/pseseal/?skip=1&lang=cy)  
[www.wales.gov.uk/psesub/home/?lang=cy](http://www.wales.gov.uk/psesub/home/?lang=cy)

**“Mae ein hysgol yn un ofalgar iawn nawr,  
ac mae'r amgylchedd yn well; mae'n  
ysgol hapus ac yn ysgol sy'n fodlon rhannu.”**

Dysgwyr mewn ysgol oedd wedi cyflwyno rhaglen ACEDd

Mae ACEDd yn cynnig agwedd gynhwysfawr at hyrwyddo sgiliau cymdeithasol ac emosiynol sy'n sail i ddysgu effeithiol, ymddygiad cadarnhaol, presenoldeb rheolaidd, effeithiolrwydd staff ac iechyd a lles emosiynol pawb sy'n dysgu ac yn gweithio mewn ysgolion.

Pan fydd ysgol yn gweithredu ACEDd yn effeithiol ar draws yr ysgol gyfan, mae'n creu sail gadarn ar gyfer ei gwaith atal bwlio. Mae sgiliau cymdeithasol ac emosiynol yn rhan greiddiol o ACEDd ac mae pob un o'r sgiliau hyn yn bwysig oherwydd mae lefelau uchel ohonyn nhw'n creu hinsawdd gymdeithasol lle nad yw unrhyw fath o ymddygiad bwlliaidd yn cael ei oddef. Mae dysgwyr yn cael eu hannog i ddatblygu'r sgiliau sy'n gysylltiedig ag empathi gan felly eu cymell i beidio â brifo eraill a herio'r rhai sy'n gwneud hynny. Maen nhw'n cael eu hannog i greu cymuned ddysgu lle maen nhw'n teimlo'n gyfrifol am gynnwys eu cyfoedion, a lle gallan nhw ddatblygu ac ymarfer y sgiliau sy'n gysylltiedig â meithrin perthnasoedd cadarnhaol. Maen nhw hefyd yn cael eu cefnogi i ddysgu ac ymarfer sgiliau pendantrwydd er mwyn iddyn nhw allu gwrthsefyll pwysau negyddol gan gyfoedion. Mae'r strategaethau maen nhw'n eu dysgu yn eu helpu i ddatrys unrhyw wrthdaro cyn i berthnasoedd gael eu niweidio neu cyn i ddrwgdeimlad waethygu a throï'n fwlio.

Am ragor o wybodaeth am ACEDd ewch i [www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolhome/curriculuminwales/pseseal/?skip=1&lang=cy](http://www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolhome/curriculuminwales/pseseal/?skip=1&lang=cy)

Mae nifer o ddulliau ysgol gyfan effeithiol eraill, a brofwyd o ganlyniad i werthusiadau cadarn, y gellir eu defnyddio i hyrwyddo datblygu sgiliau personol a chymdeithasol ar lefel ysgol gynradd. Mae'r rhain yn cynnwys y rhaglenni Cwricwlwm Deinosaur Sgiliau Cymdeithasol ac Emosiynol a Rheoli'r Dosbarth Incredible Years, a Hybu Strategaethau Meddwl Amgen (PATHS). Mae'r Rhaglen Atal Bwlio Olweus a'r Rhaglen Gwrth-fwlio KiVa hefyd yn addas ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd.

Am ragor o wybodaeth ewch i [www.incredibleyears.com](http://www.incredibleyears.com)  
[www.olweus.org](http://www.olweus.org)  
[www.kivakoulu.fi/frontpage](http://www.kivakoulu.fi/frontpage)

## Mathau penodol o fwlio

Drwy ddefnyddio *Parchu eraill* ac adeiladu ar arfer da, mae ysgolion yn gwybod sut i atal ac ymateb i fwlio yn gyffredinol, a bydd gwahanol strategaethau ganddyn nhw ar waith. Mae rhai mathau penodol o fwlio yn gysylltiedig â hunaniaethau, a dylai'r rhain fod yn rhan o'r strategaethau sy'n bodoli eisoes.

Gall ysgolion elwa o gael ychydig o gymorth ychwanegol pan fyddan nhw'n llunio mesurau ataliol ac ymatebol ar gyfer gwahanol fathau o fwlio'n seiliedig ar hunaniaeth. I'r diben hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu cyfres o ganllawiau gwrth-fwlio penodol i ysgolion.

Mae'r gyfres yn cynnwys:

- bwlio ar sail hil, crefydd a diwylliant
- bwlio sy'n ymwneud â dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau
- bwlio homoffobig
- bwlio rhywiaethol, rhywiol a thrawsffobig.

Mae datblygiadau mewn technolegau cyfathrebu, a gallu plant a phobl ifanc i'w defnyddio, yn golygu bod rhaid i ysgolion fod yn wyliadwrus ac yn greadigol wrth gael hyd i atebion i gamddefnyddio'r technolegau hyn. Felly mae'r gyfres o ganllawiau ar fathau penodol o fwlio hefyd yn cynnwys canllaw ar seiberfwlio.

Mae'r canllawiau hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn [www.cymru.gov.uk/parchueraill](http://www.cymru.gov.uk/parchueraill)

Mae pob canllaw penodol yn ceisio darparu diffiniad o'r math o fwlio ac yn tynnu sylw at rai o'r mesurau a'r materion allweddol bydd ysgolion yn dymuno eu hystyried wrth atal bwlio ac ymateb iddo. Mae'r adrannau canlynol wedi'u cynnwys ym mhob canllaw gwahanol.

- Mae Adran 1 yn ystyried **deall** y math o fwlio a'i nodweddion allweddol yn ogystal â lefel y math hwn o fwlio yng Nghymru mewn rhai achosion.
- Mae Adran 2 yn ystyried **y gyfraith** ac yn amlinellu'r fframwaith cyfreithiol presennol.
- Mae Adran 3 yn ystyried **atal** y math o fwlio a phwysigrwydd cael agwedd ysgol gyfan a chynhwysol a defnyddio cyfleoedd o fewn y cwricwlwm.

- Mae Adran 4 yn ystyried **ymateb** i fwlio, ac yn rhoi cyngor ar sut i fonitro a chofnodi digwyddiadau, a sut i wahaniaethu rhwng bwlio a mathau eraill o ymddygiad negyddol.
- Mae Adran 5 yn ystyried **adnoddau** a rhagor o ddeunyddiau darllen, gan gynnwys gwefannau defnyddiol. Mae'n cynnwys cyfres o gwestiynau cyffredin.

Mae elfennau penodol, unigryw pob rhan o'r gyfres hon o ganllawiau fel a ganlyn.

### **Bwlio ar sail hil, crefydd a diwylliant**

- Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Pwysigrwydd addysgu am faterion dadleuol megis amrywiaeth ddiwylliannol a chrefyddol, ethnigrwydd, rhagfarn, hil a hiliaeth.
- Pwysigrwydd monitro a chofnodi achosion o fwlio ar sail hil, crefydd a diwylliant, ac ystyried nodweddion tebyg a gwahanol rhwng ymddygiad hiliol a mathau eraill o ymddygiad annerbyniol.

### **Bwlio sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau**

- Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Rheoli'r effaith o gael lleoliadau ar fwy nag un safle. Er enghraifft, gall bwlio fod yn broblem arbennig i ddysgwyr sy'n defnyddio cymysgedd o ddarpariaeth arbennig a phrif ffrwd gan eu bod nhw'n symud yn gyson o un amgylchedd gwahanol i'r llall.

### **Bwlio homoffobig**

- Deddf Cydraddoldeb 2010 ac Adran 28 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 (diddymwyd yn 2003).
- Ystyried a deall modelau teulu gwahanol a datblygu systemau cymorth dysgwyr.

### **Bwlio rhywiaethol, rhywiol a thrawsffobig**

- Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Nodweddion ymddygiad bwliaidd rhywiaethol, rhywiol a thrawsffobig.

## Seiberfwlio

- Ystyried sut mae seiberfwlio yn wahanol i fathau eraill o fwlio, er enghraifft, gall y gynulleidfa fod yn fawr iawn a gellir ei chyrraedd yn gyflym.
- Yr angen i ddeall bod y math hwn o fwlio yn newid yn gyson wrth i dechnoleg a diwylliant ddatblygu.
- Pwysigrwydd diweddarau polisïau ac arferion presennol a'i gwneud hi'n haws i adrodd am seiberfwlio, hyrwyddo'r defnydd cadarnhaol o dechnoleg a gwerthuso effaith gweithgareddau atal.
- Hyrwyddo'r defnydd cadarnhaol o dechnoleg.

## Cydnabyddiaethau

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i'r rhai sydd wedi darparu'r astudiaethau achos a'r wybodaeth ar gyfer y canllawiau hyn. Mae rhestr lawn i'w gweld ym mhob un o'r pum canllaw.